Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Caer Drewyn

**Clawdd Poncen**
**Corwen**
**LL21 9RT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Caer Drewyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Caer Drewyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 99 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 84 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 36.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 7.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2005 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/04/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinwyr a staff ar draws Ffederasiwn Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol a phwrpasol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau a dyheadau uchel i ddisgyblion fod y gorau y gallant fod. Mae datblygu agweddau cryf at ddysgu, parch at bobl eraill a chefnogi lles disgyblion a staff wrth wraidd gweledigaeth a gwerthoedd y ffederasiwn. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cyfrannu'n dda at fywyd eu hysgol.

Mae athrawon ac aelodau staff eraill yn Ysgol Caer Drewyn yn addasu'r addysgu a'r dysgu yn dda iawn i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae addysgu a dysgu effeithiol, ynghyd â chwricwlwm cyfoethog ac amrywiol, yn sicrhau bod disgyblion yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac yn gweithio'n dda yn annibynnol a gyda chyfoedion i gwblhau eu 'tasgau' neu'u heriau. Mae hyn yn helpu meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu a medrau effeithiol o ran dysgu'n annibynnol. Caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn dda trwy dasgau a phrofiadau dysgu cyfoethog, ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws yr ysgol yn llai datblygedig. Yn ychwanegol, mae gallu disgyblion i adnabod yr hyn maent yn ei wneud yn dda a sut gallant wella'u gwaith yn gyfyngedig.

Mae'r pennaeth, arweinwyr eraill ac aelodau o'r corff llywodraethol yn adnabod eu cymuned yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion eu disgyblion a'u teuluoedd, ac maent yn gweithio'n ddiwyd â rhanddeiliaid eraill i'w cynorthwyo'n effeithiol. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol ac yn helpu meithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol gyfan. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad Cymraeg

A2 Cryfhau adborth athrawon a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i wella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â datblygu cwricwlwm cyfoethog ac addysgu effeithiol sy'n diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, ac yn hyrwyddo agweddau cryf at ddysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae cam datblygu medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cryf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ac yn cymhwyso eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu medrau llythrennedd yn Saesneg. Maent yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn adrodd stori'r hugan fach goch ar lafar i baratoi ar gyfer tasg ysgrifennu, ac yn esbonio'n fanwl sut chwaraeon nhw wahanol offerynnau taro i efelychu glaw wrth 'ddenu pryfed genwair'. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn datblygu medrau llafaredd at ddibenion penodol yn dda, er enghraifft i gynnal trafodaeth am bwy ddylai gynnal cystadleuaeth nesaf Cwpan Pêl-droed y Byd, ac ateb cwestiynau gan newyddiadurwyr am rôl Gareth Bale yn ystod gweithgaredd 'y gadair goch'. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn datblygu medrau darllen Saesneg ar draws yr ysgol. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau lluniau o oedran cynnar. Wrth iddynt ddatblygu medrau darllen cynnar, maent yn dechrau defnyddio strategaethau addas i ddadgodio geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau darllen a deall a rhesymu yn dda i esbonio ystyr testunau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn darllen testunau anghyfarwydd yn hyderus i ddarganfod ffeithiau am gyfnod cynnar hedfan a'r brodyr Wright. Mae llawer ohonynt yn siarad â brwdfrydedd am eu hoff lyfrau ac awduron.

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu â hyder cynyddol. Maent yn ysgrifennu paragraffau byr, er enghraifft i esbonio arwyddocâd y pabi coch yn y cyfnod yn arwain at Sul y Cofio. Maent yn adrodd gwybodaeth a gyflwynwyd iddynt gan siaradwyr gwadd, er enghraifft wrth ddysgu am effaith datgoedwigo ar gynefinoedd fforestydd glaw. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae disgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu estynedig mewn ystod addas o ffurfiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfleu gwybodaeth yn briodol, er enghraifft wrth greu posteri i rybuddio am beryglon ysmygu ac wrth ysgrifennu adroddiad manwl am yr amodau yn wyrcws Corwen yn ystod oes Fictoria. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn mireinio eu gwaith yn sgil adborth yn ddigon da, ac o ganlyniad, nid yw eu gwaith ysgrifenedig bob amser cystal ag y gallai fod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth o eiriau Cymraeg allweddol, fel lliwiau, o oedran cynnar. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn datblygu eu geirfa ymhellach, er enghraifft trwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar-lein i ddod o hyd i eiriau Cymraeg i labelu ffotograff o dirlun. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu cyfleu gwybodaeth bersonol amdanyn nhw eu hunain, ond yn aml yn dibynnu ar gardiau sbardun. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, ac at ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig wrth ddatblygu medrau Cymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol, ac maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn addas ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion iau yn datblygu medrau trin data priodol, er enghraifft pan fyddant yn creu graff i ddangos eu hoff anifail o'r stori am 'Y Dyn Sinsir'. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso medrau mesur yn briodol mewn gwersi gwyddoniaeth, er enghraifft wrth ddefnyddio mesurydd Newton i fesur ffrithiant. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn cofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol ag annibyniaeth a chywirdeb cynyddol, er enghraifft wrth gofnodi mewn graff llinell faint mae cyfradd curiad eu calon yn cynyddu ar ôl ymarfer corff.

Mae medrau digidol bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd yn hyderus i greu tablau a graffiau sy'n cofnodi meintiau esgidiau eu cyfoedion mewn centimetrau. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn creu erthyglau papur newydd digidol am y modd y mae'r galw am olew palmwydd yn dinistrio cynefinoedd orangwtaniaid ac yn defnyddio technoleg sgrin werdd yn greadigol i ffilmio adroddiadau newyddion o uwchgynhadledd ar newid hinsawdd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau creadigol. Mae disgyblion iau yn datblygu medrau cerddoriaeth yn dda, er enghraifft trwy gadw curiad i'r rhythm wrth iddynt ganu gyda'i gilydd. Ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4, mae disgyblion yn gwneud lluniau â silwetau cerdyn du yn fedrus i nodi Sul y Cofio. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau drama yn briodol, er enghraifft wrth ateb cwestiynau yn rôl teithiwr ar y Titanic. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio dyfrlliwiau yn bwrpasol i greu paentiadau o ddail yr hydref. Maent yn gwneud crochenwaith hefyd gan ddefnyddio clai coch lleol i gyfrannu at arddangosfa mewn amgueddfa leol.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu medrau corfforol da. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn datblygu medrau echddygol manwl trwy weithio'n annibynnol i greu hetiau, gan ddefnyddio siswrn i dorri allan addurniadau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn datblygu medrau corfforol da trwy gynllunio a chymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi y maent yn ei ffilmio. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol yn dda yn ystod gwersi ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored i benderfynu ar b'un a yw rhywbeth yn ffaith neu'n farn trwy redeg i ochr berthnasol yr iard.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r berthynas gadarnhaol, ofalgar ac anogol sy'n bodoli ymhlith disgyblion a rhwng staff a disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu amdanynt, ac o ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn garedig, yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion, ac at ei gilydd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cynorthwyo disgyblion iau trwy gynllun 'cyfeillion darllen', sy'n helpu meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn trin ei gilydd yn deg a gyda pharch, ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni. Maent yn hyderus fod staff yn ymateb ar unwaith i'w pryderon ac yn eu cynorthwyo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod arweinwyr yr ysgol yn gwrando arnynt a bod eu cyfraniad at fywyd ysgol yn cael ei werthfawrogi. Maent yn deall pwysigrwydd cynnal agweddau cadarnhaol at eu gwaith a sut mae hyn yn eu helpu i oresgyn heriau yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr aeddfed ac annibynnol sy'n gweithio'n dda gyda'u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i ddatrys problemau. Maent yn datblygu technegau meddwl priodol i'w helpu i lwyddo a dyfalbarhau wrth gwblhau tasgau cyn gofyn am gymorth. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau fel 'Tri Cyn Fi' ('Three Before Me') yn effeithiol i wneud cynnydd â'u tasgau. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu gwydnwch a hyder wrth ddyfalbarhau â'u gwaith yn eu dosbarthiadau ac wrth ymgymryd â thasgau ymarferol yn yr awyr agored.

Mae aelodau o'r amryw gynghorau ysgol a grwpiau llais y disgybl yn falch o'u rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifrif. Mae cynrychiolwyr yn gwneud eu gwaith yn frwdfrydig trwy amrywiaeth o weithgareddau ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, dyluniodd aelodau o'r pwyllgor eco daflen wybodaeth am flwch cinio iach ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Maent yn gwybod am bwysigrwydd diogelu eu gwybodaeth bersonol a rhoi gwybod i oedolyn am bryderon. Mae ymweliadau gan swyddog cymunedol yr heddlu a fideo a grëwyd gan arweinwyr digidol yr ysgol yn atgyfnerthu hyn yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ag ymwelwyr ac oedolion eraill, er enghraifft wrth drafod eu gwaith, eu hobïau a'u diddordebau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn deall rheolau'r ysgol, sef bod yn barod, bod yn barchus, bod yn ddiogel, ac yn cyfeirio atynt yn rheolaidd yn y dosbarth. Maent yn gwrando'n ofalus ar eu cyfoedion ac ar oedolion, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio'n dda, yn enwedig pan fydd tasgau o ddiddordeb iddynt. Mae agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda at y cynnydd cryf y mae bron pob un ohonynt yn ei wneud.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Mae disgyblion iau yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta diet cytbwys, er enghraifft wrth gynllunio pryd bwyd iach ar gyfer chwaraewr pêl-droed. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb. Maent yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel rhan o gymdeithas amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r disgyblion hŷn yn ymchwilio i hawliau dynol yn Qatar yn ystod Cwpan y Byd ac yn ystyried beth sy'n cyfrannu at gymdeithas sy'n parchu hawliau dynol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud awgrymiadau pwrpasol am yr hyn y maent yn ei ddysgu ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar destunau dosbarth. Er enghraifft, maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u syniadau yn rheolaidd wrth gyfrannu at fapiau meddwl a chynllunio testunau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan â brwdfrydedd a lefel uchel o ymgysylltiad wrth gwblhau eu 'tasagu' neu'u heriau.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb yn effeithiol i adborth llafar gan oedolion i gyfoethogi a symud eu dysgu ymlaen. Fodd bynnag, mae eu gallu i fyfyrio ar eu gwaith, a'i wella, yn llai datblygedig.

Er bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb y llynedd, mae cyfradd presenoldeb yr ysgol dros yr un cyfnod gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r cyfraddau presenoldeb hyd yma yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae hyn yn un o nodweddion cryf yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn Ysgol Caer Drewyn. Mae hyn wedi'i seilio ar werthoedd cryf ar draws y ffederasiwn, gan gynnwys caredigrwydd, chwilfrydedd a chreadigrwydd. Mae'r rhain i'w gweld yn glir yn Ysgol Caer Drewyn ac yn ffurfio sylfaen y perthnasoedd cryf a chefnogol sy'n bodoli ym mhob ystafell ddosbarth. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus ar draws y ffederasiwn i drafod cynnydd a gwella arfer, er enghraifft trwy arwain ar feysydd dysgu a phrofiad. Mae hyn yn hynod effeithiol wrth ddatblygu agweddau fel iechyd a lles, sy'n cefnogi datblygiad emosiynol y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae arweinwyr a staff wedi datblygu cynlluniau pwrpasol i gefnogi addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at gynllunio testunau pob tymor trwy awgrymu beth maent eisiau ei ddysgu. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu'n annibynnol neu'r 'tasgau' yn galluogi disgyblion i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau difyr a heriol. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn dewis y gweithgaredd ar y lefel her y maent yn ei hystyried eu bod yn briodol iddyn nhw, sy'n datblygu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus.

Mae staff yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu agweddau ar bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr gydol oes annibynnol. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r '50 o bethau i'w profi cyn i mi adael Ysgol Caer Drewyn,' sy'n cynnwys amrywiaeth eang a gwerthfawr o brofiadau, wedi'u cynllunio i gyfoethogi bywydau'r disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu i fod yn unigolion iach a hyderus trwy gymryd rhan mewn trafodaethau gydag aelodau hŷn o'r gymuned, yn ogystal â cherdded i gopa Caer Drewyn, sef bryngaer leol o'r Oes Haearn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu sylfaen wedi'i seilio ar ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae cyfoethog, sy'n datblygu medrau ac annibyniaeth disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn darparu ystod dda iawn o weithgareddau ysgogol sy'n annog brwdfrydedd a medrau cydweithredol disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i wahanol heriau sy'n eu galluogi i gydweithio â'u ffrindiau a datblygu hunanhyder. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am sut maent yn cofnodi lluniau ac yn recordio pytiau fideo o'u gweithgareddau, gan esbonio sut cyflawnon nhw eu nodau.

Mae disgyblion Ysgol Caer Drewyn yn elwa ar fod yn rhan o gymuned glòs a chefnogol, sy'n darparu llawer o gyfleoedd i ddysgu am hanes a thraddodiadau ardal Corwen. Er enghraifft, dysgodd disgyblion am yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yng Nghorwen a helpu creu gwaith celf yn seiliedig ar yr ardal leol brydferth yn nyffryn Dyfrdwy. Yn ychwanegol, dysgodd disgyblion o'r ddwy ysgol am fywyd yn yr ardal yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf trwy weithio ag aelodau o Amgueddfa Corwen.

Mae athrawon yn addasu eu haddysgu yn eithriadol o dda i ddiwallu anghenion pob un o'r dysgwyr. Maent yn gwneud defnydd medrus o weithgareddau byr, craff ac ymarferol yn bennaf sy'n sicrhau bod disgyblion yn parhau i fod yn weithgar ac ymgysylltu trwy gydol y sesiynau. Mae'r defnydd o'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored i gefnogi dysgu disgyblion yn nodwedd gref o ddarpariaeth y cwricwlwm. Mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Gyda'i gilydd, maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i ddisgyblion lwyddo a herio eu hunain yn effeithiol. Rhoddir pwyslais cryf ar les disgyblion ym mhob ystafell ddosbarth i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer dysgu a'u bod yn cael eu cynorthwyo yn y ffordd orau posibl. Mae hon yn nodwedd gref o'r ysgol ac yn cysylltu'n agos â'r ffocws cyson ar les disgyblion. Er enghraifft, caiff disgyblion eu hannog yn ystod gwersi i wynebu heriau newydd a gwneud dewisiadau cyfrifol. Mae staff yn defnyddio ymagwedd bwyllog a chefnogol at gynnal disgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn parhau i ymgysylltu a chanolbwyntio ar dasgau dysgu am gyfnodau estynedig.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi addasu eu hymagwedd at fonitro cynnydd disgyblion, gan gynnwys eu lles a'u hagweddau at ddysgu. Mae hyn yn golygu bod gan athrawon lawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael wrth gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Mae pob un o'r athrawon yn rhannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant yn briodol â disgyblion, ac mae'r rhain yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu. Maent yn gofyn cwestiynau defnyddiol ac yn rhoi adborth ar lafar i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau dysgu, sy'n helpu atgyfnerthu eu dealltwriaeth a herio eu ffordd o feddwl. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau ar ôl adborth. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwella ac ymestyn eu gwaith hyd eithaf eu gallu. Mae athrawon yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd a lles eu plant, sy'n eu helpu i ddeall sut gallant eu cynorthwyo gartref.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da yn llwyddiannus. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn nodwedd gref ar draws yr ysgol gyfan, ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at hapusrwydd a lles disgyblion. Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn eithriadol o dda trwy gynnig ymyriadau pwrpasol ac addas.

Mae bron pob aelod o staff yn darparu arweiniad effeithiol i helpu rhieni a gofalwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i gynorthwyo'u plant. Mae nosweithiau gwybodaeth rheolaidd a'r berthynas agos rhwng staff a rhieni a gofalwyr yn allweddol i hyn. Maent yn cael eu croesawu i'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r disgyblion

hefyd, fel 'Dydd Llun Llanast' ('Messy Mondays') gyda'r disgyblion iau, gweithio gyda'r Grŵp Eco a bwyta yn y neuadd fwyta gyda'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar waith i nodi, cynorthwyo a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys map clir o'r ddarpariaeth, proffiliau un dudalen defnyddiol a chynlluniau datblygu unigol sy'n amlinellu anghenion y disgyblion a'r cymorth angenrheidiol yn dda. Mae gan bob disgybl ei dargedau unigol ei hun a nodwyd gan yr athro mewn cydweithrediad â'r disgybl. Mae staff yn nodi'r disgyblion a allai elwa ar gymorth ychwanegol yn gynnar. Maent yn darparu amrywiaeth bwrpasol o ymyriadau sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd gwerthfawr mewn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â gwella eu lles. Mae cymorth unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol yn eu helpu i deimlo'n ddigynnwrf yn yr ysgol a mwynhau eu dysgu; er enghraifft, mae'r 'Ystafell Enfys' yn darparu amgylchedd diogel a llonydd i'r disgyblion ymlacio a myfyrio. Mae'r pennaeth a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) yn rhoi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i helpu cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, maent yn gweithio'n dda gyda gweithiwr cyswllt teuluol ac athro sy'n arbenigo mewn ymddygiad i gynorthwyo disgyblion a theuluoedd.

Mae gan yr ysgol drefniadau cryf ar waith i hyrwyddo ymarfer corff a bwyta'n iach, fel bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd dewis ffordd iach o fyw. Un o'r nodweddion cryf yn narpariaeth yr ysgol yw rhoi cyfleoedd i'r disgyblion goginio byrbrydau iach yn rheolaidd fel rhan o'r cwricwlwm a darpariaeth ar ôl yr ysgol. Mae'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored a gweithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd buddiol ar gyfer ymarfer corff hefyd; er enghraifft, mae staff yn arwain gweithgareddau meithrin tîm a gweithgareddau ysgol goedwig defnyddiol i gefnogi dysgu a datblygiad disgyblion.

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymchwilio i gredoau allweddol y grefydd Islamaidd yn gysylltiedig â Chwpan Pêl-droed y Byd yn Qatar, ac yn creu poster yn dangos stori Jona a'r morfil. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddathlu eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig hefyd, o ddathlu bywyd Owain Glyndŵr, oedd â chysylltiadau cryf â'r ardal leol, i adrodd yn Eisteddfod yr Urdd a mynd ar ymweliadau preswyl i'r ganolfan awyr agored gyfagos a Chaerdydd.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy ddarparu amrywiaeth o weithgareddau creadigol a diddorol. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i waith Wangari Maathai, sef enillydd Gwobr Heddwch Nobel, ac yn trafod pwysigrwydd 'Dangos y cerdyn coch i hiliaeth'. Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol ag elusennau a chymunedau eraill, sy'n cefnogi gwerthoedd craidd yr ysgol a dysgu'r disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o fentrau i hyrwyddo gwrthfwlio ac yn arddangos posteri a deunydd arall ar rinweddau cael ffrindiau da o gwmpas yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gofalu am ei gilydd a gwybod y

gwahaniaeth rhwng da a drwg. Mae darpariaeth yr ysgol yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hawliau.

Mae staff yn annog dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithgar trwy arwain gweithgareddau amrywiol mewn grwpiau disgyblion. Er enghraifft, cynlluniodd y Llysgenhadon Diogelwch ar y Ffordd gystadleuaeth i greu posteri diogelwch ar y ffordd ar gyfer disgyblion, a chreodd yr arweinwyr digidol gyflwyniad addysgiadol ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae'r ysgol yn darparu arweiniad a chyngor effeithiol i ddysgwyr, sy'n codi eu dyheadau a dewisiadau gyrfa posibl yn y dyfodol, er enghraifft trefnu ymweliadau â phrifysgol leol i ddisgyblion a'u teuluoedd ddysgu mwy am eu gwaith.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb da yn nodwedd gref yn y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb yn drylwyr ac yn hyrwyddo presenoldeb da yn bwrpasol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion sy'n cymharu'n dda â meincnodau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer diogelwch disgyblion ac wedi sefydlu diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol. Maent yn sicrhau bod pob un o'r staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol yn effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae Ysgol Caer Drewyn yn rhan o ffederasiwn ysgolion ag ysgol gyfagos, sef Ysgol Carrog, ac mae'r pennaeth yn rhannu ei hamser arwain rhwng y ddwy ysgol. Mae arweinwyr ac athrawon o'r ddwy ysgol yn gyfrifol am agweddau amrywiol ar y ddarpariaeth ar draws y ffederasiwn. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i wneud defnydd da o arbenigaeth ac arbenigedd staff i gefnogi dysgu ar y ddau safle. Mae'r pennaeth wedi gweithio'n ddiwyd gyda rhanddeiliaid i greu a chyfleu gweledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn, sy'n canolbwyntio ar sicrhau amgylchedd gofalgar ac anogol lle caiff disgyblion y cyfleoedd gorau i ddysgu. Lles staff, disgyblion a'u teuluoedd sydd wrth wraidd gwaith y ddwy ysgol. Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan ar draws y ffederasiwn, gyda phwyslais cryf ar staff y ddwy ysgol yn cefnogi ei gilydd i gyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy benaethiaid wedi sefydlu ethos tîm cryf ar draws y ffederasiwn lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu ac yn derbyn gofal. Mae pob un o'r staff yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddeilliannau disgyblion. Maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cefnogi agweddau pwysig ar waith y ddwy ysgol, er enghraifft trwy arwain ar feysydd dysgu a phrofiad a thrwy ymgymryd â rôl y CydADY. Mae arweinwyr a staff yn barod i addasu ac esblygu eu darpariaeth yn effeithiol i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Maent yn sicrhau eu bod yn darparu cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol sy'n ysgogi diddordeb disgyblion ac yn datblygu agweddau cryf at ddysgu. Mae hyn yn golygu bod bron pob un o'r disgyblion ar draws y ddwy ysgol yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu ac yn dangos agweddau iach at ddysgu.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn adnabod cymunedau'r ysgol yn dda iawn ac yn darparu cymorth a her effeithiol. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac

yn gwybod beth yw'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws y ffederasiwn o ysgolion. Er bod pandemig COVID-19 wedi lleihau eu hymweliadau monitro a bugeiliol â'r ysgolion, maent yn parhau i ddarparu her briodol i arweinwyr ac yn cyfrannu'n effeithiol at benderfyniadau pwysig, er enghraifft wrth benderfynu ar dargedau presenoldeb priodol ar gyfer y ddwy ysgol, ar ôl ystyried data o flynyddoedd blaenorol i lywio eu penderfyniad. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu herio effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn dda iawn. Mae hyn yn cynnwys darparu cymhorthdal ar gyfer ymweliadau preswyl ac ymweliadau eraill â lleoedd o ddiddordeb ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae'r ysgol yn chwarae rôl amlwg yn y gymuned ehangach ac yn gweithio'n dda ag asiantaethau eraill sy'n rhoi cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd. Er enghraifft, mae arweinwyr a staff yn gweithio ochr yn ochr â gweithiwr cyswllt teuluoedd yr awdurdod lleol i ddarparu cymorth sydd ei angen yn fawr i deuluoedd sy'n ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael ystod addas o adnoddau a dysgu proffesiynol i helpu cefnogi disgyblion a'u teuluoedd, er enghraifft trwy ddarparu cymorth ychwanegol i ddiwallu eu hanghenion lles ac emosiynol.

Mae arweinwyr a staff wedi sefydlu cysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Pan fo'n bosibl, gwahoddir rhieni a gofalwyr i'r ysgol i gynorthwyo disgyblion a dysgu mwy am sut gallant gynorthwyo eu plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe wnaethant fynychu sesiwn 'Dydd Llun Llanast' i greu 'Hattie y Draenog' gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gyda'r disgyblion iau a gweithio gyda'u plant i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar trwy argraffu a sgriblo ar collage.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau pwrpasol i fonitro a gwerthuso gwaith y ddwy ysgol. Er bod pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar weithgareddau monitro, mae arweinwyr a staff wedi parhau i werthuso ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau. Mae athrawon yn craffu ar lyfrau ar draws y ddwy ysgol ac mae'r pennaeth yn cynnal arsylwadau anffurfiol o addysgu a dysgu, yn ogystal â gwrando ar safbwyntiau a barn disgyblion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Ceir cysylltiad clir rhwng canfyddiadau'r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau dynodedig yr ysgol, sy'n cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol pwysig fel y Cwricwlwm i Gymru. Er bod targedau a chamau gweithredu'r ysgol yn cysylltu'n briodol ag anghenion yr ysgol, nid yw arweinwyr yn nodi'n ddigon da pa feysydd sydd angen eu blaenoriaethu yn nhrefn eu pwysigrwydd.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Rhoddir pwyslais cryf ar sicrhau bod dysgu proffesiynol staff yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu, yn ogystal â chefnogi anghenion emosiynol a lles disgyblion. Mae'r pennaeth yn cynorthwyo staff i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau arwain hefyd, sy'n eu galluogi i arwain ar agweddau pwysig ar y ddarpariaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu ar draws y ffederasiwn, er enghraifft trwy ganiatáu athrawon ac arweinwyr i ddatblygu'r meysydd dysgu a phrofiad ar draws y ddwy ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2023